



Pob Lleoliad Gofal Dydd yng Nghymru

30 Mehefin 2022

Annwyl gydweithiwr

Ym mis Ionawr 2021, ysgrifennais atoch i'ch hatgoffa o'r [gofynion mewn perthynas â chymwysterau](#) staff sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal dydd cofrestredig, gan gynnwys lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored a lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol.¹

Mae'r gofynion hyn gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn ein [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed, yn datgan bod yn rhaid i bawb sy'n gyfrifol am, a chyfran o'r staff nad ydynt yn goruchwyllo sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gofal dydd a reoleiddir ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed, feddu ar gymhwyster perthnasol. Gellir dod o hyd i'r rhain yn y [fframwaith/siart llif](#) priodol

Rhoddwyd gwybod am hyn gyntaf yn 2017 drwy [gylchlythyr](#) ac anfonwyd [llythyr atgoffa](#) ym mis Ionawr 2020. Cadarnhaodd fy llythyr dyddiedig Ionawr 2021 hefyd, oherwydd pandemig COVID-19, y byddai'r dyddiad cau ar gyfer ennill cymhwyster gofynnol yn cael ei ymestyn i 30 Medi 2022.

Rwy'n ysgrifennu atoch nawr i'ch atgoffa bod y dyddiad cau yn agosáu a'ch atgoffa am y gefnogaeth sydd ar gael o hyd i helpu i gyflawni hyn.

Datblygwyd y Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yn benodol i gefnogi ymarferwyr i ennill y cymwysterau angenrheidiol erbyn y dyddiad cau. Os nad ydych chi/aelod o'ch staff wedi cofrestru eto, mae lleoedd ar gael o hyd ar gyrsiau ac mae cymorth ar gael gan [ddarparwyr hyfforddiant](#) i'ch helpu i oresgyn unrhyw rwystrau y gallech fod yn eu hwynebu.

Bydd cyrsiau dwys hefyd yn cael eu cynnig dros fisoedd yr haf (gan gynnwys yn Gymraeg, os bydd galw) i gefnogi lleoliadau ymhellach i gwrdd â'r dyddiad cau. Mae cymorth a chynngor hefyd ar gael gan eich sefydliad aelodaeth/ymparél perthnasol – [Chwarae Cymru](#); [Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs](#); [Blynyddoedd Cynnar Cymru](#); [Mudiad Meithrin](#) a [Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru](#).

¹ Nid yw'r llythyr hwn yn berthnasol i warchodwyr plant


Yn fy llythyr diwethaf, fe'ch hysbysais o'r camau y dylech eu cymryd i sicrhau y byddai staff yn ennill y cymwysterau angenrheidiol erbyn 30 Medi 2022 ac y byddai'r camau hyn yn cael eu hystyried gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel rhan o'u rôl reoleiddio ac arolygu. Mae hyn yn rhan o'u rôl graidd i *gofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.*

Gwn y bydd llawer ohonoch wedi cymryd y camau hyn. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod y sector hefyd yn wynebu heriau recriwtio a chadw, sy'n fater sydd wedi'i waethygyd gan y pandemig. Rwy'n cydnabod y gallai hyn, mewn rhai achosion, effeithio ar gwblhau cymhwyster gofynnol erbyn y dyddiad cau o 30 Medi 2022.

Hoffwn eich sicrhau y bydd AGC, wrth gynnal arolygiadau, yn rhoi sylw dyledus i'r camau y mae lleoliadau wedi'u cymryd, neu'n ymgymryd â hwy, i sicrhau bod staff yn cyflawni'r cymwysterau angenrheidiol. Ni fyddai methu â bodloni'r terfyn amser yn llawn o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid i'r lleoliad gau neu leihau gwasanaethau os oes tystiolaeth glir o gymhwysedd i ddarparu'r gwasanaeth a chynllun ac amserlen glir i fodloni'r gofynion. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon am eich gallu i gwrdd â'r dyddiad cau ac yn teimlo y byddai'n effeithio ar eich gallu i ddarparu eich gwasanaeth, byddwn yn eich annog i gysylltu ag AGC cyn gynted â phosibl i drafod hyn.

Er ein bod yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol, rydym hefyd yn gwybod ein bod i gyd yn rhannu'r un ymrwymiad i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus o ansawdd uchel yng Nghymru. Gofynnaf i chi nodi'r cymorth sydd ar gael a sicrhau eich bod yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i fodloni gofynion cymwysterau eich lleoliad.

Yn gywir



Nicola Edwards

**Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
Deputy Director Childcare, Play and Early Years Division**

Cc:

Arolygiaeth Gofal Cymru; Gofal Cymdeithasol Cymru; Chwarae Cymru; CWLWM; AWARE; CLILC; Cydlynwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol; Cydlynwyr Chwarae Awdurdodau Lleol; Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd